



# Polisi Ymddygiad a Disgyblaeth Plant

Cymeradwywyd y polisi hwn gan:

Cydlynnydd: \_\_\_\_\_

Cyngor Ysgol: \_\_\_\_\_

Y Corff Llywodraethol: \_\_\_\_\_

Dyddiad: \_\_\_\_\_

Dyddiad adolygu: \_\_\_\_\_

## **Nôd**

Creu awyrgylch hapus a chartrefol yn yr ysgol - gan greu ymdeimlad o hunan-ddisgyblaeth. Gweithredu system o wobrwyo a disgyblaeth bendant gyson yn yr ysgol.

## **Amcanion**

1. Gosod sylfaen a fydd yn caniatáu i'r plant dyfu i fod yn aelodau cyfrifol o'u cymdeithas.
2. Meithrin hunan barch, parch tuag at eu cyd-ddisgyblion, oedolion ac eiddo.
3. Bod yn oddefgar o safbwynt a barn pobl eraill.
4. Derbynn cyfrifoldeb am eu hymddygiad a bod yn hunan feirniadol.
5. Gwerthfawrogi bodolaeth gwahanol bobloedd, traddodiadau, diwylliannau a chrefyddau ayyb.

## **Datganiad o Bolisi**

Mae llwyddiant ysgol yn dibynnu ar bobl yn gweithredu mewn ffyrdd arbennig i gyflawni ei nôd a'i hamcanion.

Mae cydweithio rhwng y bobl sydd yn ymwneud â'r ysgol hon yn hanfodol i'w llwyddiant. Gwneir dysgu ac addysgu'n effeithiol drwy ymddygiad da ond amherir ar y prosesau hyn gan ymddygiad annerbyniol. Rhaid cael arweiniad cryf, cadarnhaol oddi wrth yr holl oedolion a rhaid cael diffiniad clir o ymddygiad derbyniol, ac adlewyrchir hyn yn ethos yr ysgol.

Yn unol â'r gred hon, dylid gweithredu'r Polisi Disgyblaeth yn ôl y canllawiau canlynol:

- Dylai pawb, gan gynnwys y rhieni/gwarchodwyr a'r llywodraethwyr, fod yn gyfarwydd â Pholisi Disgyblaeth yr ysgol.
- Dylai pawb, yn staff a disgyblion, dderbyn cyfrifoldeb am gynnal ymddygiad da drwy'r ysgol.
- Dylai fod cydbwysedd iach rhwng cymeradwyo a disgyblu a dylid eu gweithredu'n deg a chyson er bod gofyn caniatáu hyblygrwydd yn ôl amgylchiadau unigol. Mae staff yn ymwybodol o ddulliau hybu ymddwyn cadarnhaol. Disgwylir gweld a chlywed enghreifftiau o gymeradwyo yn fwy aml na chosb, hyn yn ei dro, yn cyfrannu at ethos gadarnhaol yn yr ysgol ymysg disgyblion ac oedolion.
- Dylid cofio mai pobl sy'n bwysig ac nid system, felly rhaid dangos parch fel egwyddor sylfaenol.
- Dylid defnyddio dulliau cyfathrebu o fewn yr ysgol a rhwng y cartref a'r ysgol ac/neu asiantau allanol yn gyson.

### **Gweithio gyda'n Gilydd: Rhannu'r Cyfrifoldeb**

Mae camau ymarferol i rieni, disgyblion, llywodraethwyr, athrawon a staff cefnogi eu dilyn, fel y nodir isod:

#### **Rhaid i rieni/gwarchodwyr:**

- Gysylltu â'r ysgol os ydych yn ymwybodol o neu'n amau fod achos pryder o ran disgyblaeth;
- Annog eich plant i ddilyn rheolau a chanllawiau yr ysgol
- Gefnogi'r ysgol os gweithredir camau pellach.

#### **Rhaid i ddisgyblion:**

- Ddilyn rheolau'r ysgol
- Gadw at y 'Cytundeb Ysgol - Cartref'
- Ddweud wrth rywun ac ymddiried yn y staff i weithredu ar eu rhan;
- Fod yn ymwybodol o'r gwobrau a'r cosbau a ddefnyddir yn yr ysgol;
- Dderbyn cosb os canfyddir eu bod wedi torri rheolau'r ysgol/dosbarth.

#### **Rhaid i Lywodraethwyr:**

- Wybod am a deall y polisi;
- Gefnogi'r staff wrth weithredu'r polisi;
- Gyflawni rôl weithredol wrth adolygu a chynnal y polisi.

#### **Rhaid i bob aelod o'r staff:**

- Wneud yn siŵr eu bod yn gwybod rheolau'r ysgol a'u gweithredu.
- Gydymffurfio ag argymhellion Ymddygiad Gadarn h.y. defnyddio canmoliaeth a system wobrwyo am ymddygiad dda addas a chosbi pan fo hynny'n hollol angenrheidiol. Dylai'r achosion o ganmoliaeth a gwobrwyo ragori ar yr achosion o gosbi.
- Gofio - po fwyaf o ganmol a wneir, lleiaf o ymddygiad gwael a geir.
- Peidio defnyddio cosb grŵp cyfan, os yn bosib.
- Fynd at wraidd y broblem.
- Sicrhau fod ganddynt ddisgwyliadau uchel o safonau gwaith ac ymddygiad disgyblion.
- Gadw cofnod o achosion o gamymddwyn.
- Sicrhau awyrgylch hapus a chartrefol yn yr ysgol drwy ymdrechu'n deg a chyson i gynnal safonau uchel ac i sicrhau bod y plant yn ymwybodol o'r safonau hynny.
- Fod yn barod i wneud amser a chreu cyfleoedd i wrando ar blant a'u cymryd o ddifri' e.e. Amser Cylch;
- Weithredu'r polisi ysgol gyfan o ran gwobrau a chosbau;
- Annog a hybu yr awydd mewn plant i ofalu am ei gilydd
- Osod esiampl dda i'r plant trwy barchu plant ac oedolion gan sicrhau fod ethos yn yr ysgol lle mae cydweithio a gofalu yn bwysig
- Gydweithredu gyda'r rhieni

## Gwobrwyo

Yn ein hysgol rydym wedi datblygu disgyblaeth bositif ac mae gennym system wobrwyo 'Pwyntiau Emoji'.

Meithrin - Gwobrwyo dosbarth cyfan

Uned dan 6 - Pan fod plentyn yn cyrraedd 10 emoji, mae'n cael gwobr.

Uned dan 9 - Pan fod pob plentyn yn y dosbarth yn cyrraedd 10 peg/emoji, mae'r dosbarth cyfan yn cael gwobr.

Uned dan 12 - Pan fod pob plentyn yn y dosbarth yn cyrraedd 10 peg/emoji, mae'r dosbarth cyfan yn cael gwobr.

Bydd tystysgrif 'Seren yr Wythnos' a 'Siaradwr Cymraeg yr Wythnos' yn cael ei rhoi yn wythnosol.

Mae'r staff hefyd yn rhoi sticeri ymdrech pan fo'r galw.

Ar ddechrau pob blwyddyn addysgol mae plant yn cael eu hannog i greu rheolau dosbarth eu hunain - y nhw sy'n berchen ar y rheolau hyn.

## Disgyblu

Rydym yn dilyn trefn 'Goleuadau Traffig' drwy'r ysgol gyfan ac mae'r drefn ddisgyblaeth fel a ganlyn:



**GWYRDD = GWYCH**

**MELYN = MEDDWL (Colli rhan o amser egwyl)**

**COCH = COSB (Colli amser egwyl cyfan neu fwy, gadael i'r pennaeth wybod a chysylltu gyda'r rhieni)**

Mae 'Taflen Tracio Ymddygiad' ym mhob dosbarth ac os gwelir fod disgybl yn parhau i symud i'r melyn neu goch yna mae gan yr ysgol hawl i atal y disgybl hwnnw rhag cymryd rhan mewn gweithgareddau allgarsiol e.e. twrnament neu daith ysgol.

Gall torri rheolau cyson arwain at gamau tuag at waharddiad tymor byr, amhenodol neu barhaol. Y pennaeth yn unig gaiff wneud hyn. Mae bwlio cyson, ymladd, ymddygiad hiliol ac amaharch difrifol tuag at eiddo, disgyblion ac/neu athrawon hefyd yn enghreifftiau o ymddygiad sy'n arwain at waharddiad.

Mae'r camau uchod yn brintiedig ym mhob dosbarth.

Defnyddir system 'Amser Cylch' a 'Sesiynau Cefnogi Lles' fel rhan o bolisi bugeiliol yr ysgol. Yn ystod yr amser hwn bydd pob plentyn y cyfle i rannu ei deimladau/theimladau mewn awyrgylch ddiogel a di-fai. Mae hefyd yn gyfle i'r athro ddod yn ymwybodol o unrhyw broblemau all godi o bryd i'w gilydd.

Ni chaniateir unrhyw **FWLIO** yn yr ysgol. Mae'n bwysig fod staff yr ysgol yn ymwybodol o unrhyw bryderon sydd gan y plant. Mae gan yr ysgol bolisi i drafod bwlio yn agored - i adnabod, ymateb a datrys.

### **Rheolau'r Ysgol**

1. Dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill ar bob achlysur gan ddangos cwrteisi tuag at blant ac oedolion yr ysgol. **Parchu pawb a phopeth.**
2. Bod yn gadarnhaol tuag at ei gilydd a defnyddio iaith weddus ar bob achlysur.
3. Dangos parch tuag at yr ysgol a'u hardal trwy ymddwyn yn weddus bob amser.
4. Parchu eiddo'r ysgol ac eiddo plant a phobl eraill.
5. Parchu amgylchedd yr ysgol gan roi sbwriel yn y bin pwrpasol.
6. Bod yn lân ac yn daclus bob amser.
7. Bod yn brydlon.
8. Sicrhau bod eu hystafell ddosbarth yn daclus ar ddiwedd y gwersi ac ar ddiwedd y dydd.
9. Cerdded ac nid rhedeg o fewn yr ysgol.
10. Gwneud yn siwr fod popeth angenrheidiol ganddynt ar gyfer y diwrnod ysgol e.e. bag darllen, llyfr darllen a'u cofnod darllen, gwaith cartref, dillad nofio, llythyrau.
11. Rhaid cario negeseuon a llythyrau o'r ysgol ac i'r ysgol.
12. Rhaid chwarae tu allan bob amser chwarae sych a chael caniatâd oedolyn i fynd i mewn i'r ysgol yn ystod amser chwarae.

Yr un rheol bwysig i bob un ohonom yw:

### **Y BYDD PAWB YN YMDDWYN YN FOESGAR A CHWRTAIS GAN FEDDWL AM ERAILL BOB AMSER**

#### **Casgliad**

Ceisio'r polisi hwn greu ethos garedig, ystyriol a diormes o fewn yr ysgol. Mae disgyblaeth gadarn yn hanfodol i gyrraedd y nod yma. Bwriad y polisi hwn yw ceisio greu ymdeimlad o ofal a gwarchodaeth o fewn yr ysgol.

O gael eu harfer yn deg ond eto'n gadarn, dylai'r canllawiau hyn sicrhau tegwch i bawb.

Ymdrechir i drin bob plentyn yn deg ond, er mwyn sicrhau tegwch, gall natur y gosb, am yr un gamwedd, amrywio o blentyn i blentyn. Bydd hyn yn dibynnu ar bersonoliaeth, amgylchiadau, aeddfedrwydd ac ymateb cyffredinol y plentyn i dderbyn cosb.

Trafodwyd a chytunwyd ar y polisi yma gyda'r Cyngor Ysgol  
ac mewn Cyfarfod Staff  
Tachwedd, 2023

Adolygu Tymor yr Hydref, 2025



## EGLURO'R LLIWIAU

- Mae pawb yn dechrau ar y gwyrdd ar gychwyn bob diwrnod
- Does dim posib creu rhestr bendant o bethau all arwain at symud i'r melyn neu goch
- Dyma enghreifftiau o'r math o ymddygiad gall arwain at felyn neu goch
- Rhaid i bawb ddefnyddio synnwyr cyffredin e.e oed plentyn, anghenion, sefyllfa
- Pawb i ddilyn yr un drefn - mae cysondeb yn holl bwysig
- Anaml bydd plant yn cyrraedd y coch a rhaid iddo fod yn rhywbeth sydd â parchus ofn

| MELYN  | COCH   |
|--|--|
| Tarfu ar wers e.e. atal eraill rhag dysgu / gweithio       | Rhwygo llyfr(au) yn bwrpasol / taflu offer yn y dosbarth |
| Peidio cwblhau gwaith                                      | Dinistrio gwaith e.e. hun neu eraill                     |
| Bod yn annifyr gydag eraill e.e. galw enw, gweiddi a.y.y.b | Ymosod ar lafar  |
| Gwthio, brifo 'ar ddamwain'                                | Taro, cicio, brathu yn fwriadol                          |
| Defnyddio geiriau anweddus                                 | Rhegi / defnyddio geiriau drwg iawn                      |
| Bod yn haerllug gyda staff e.e ateb nol                    |  |
| Poeri ar ddamwain drwy wneud sŵn gwirion                   | Poeri yn fwriadol  |

## DISGYBLU

- Os yn colli 5 munud, hanner neu amser egwyl cyfan, rhaid i hyn fod yn ystod cyfnod nesaf posib ar ôl y gosb.
- Os yn digwydd yn ystod y wers olaf, rhaid i'r gosb fod adeg egwyl cyntaf y diwrnod canlynol.
- Mae angen i bob plentyn, sydd yn gallu, gwblhau taflen 'Munud i feddwl' er mwyn myfyrio ar yr hyn mae nhw wedi ei wneud.
- Rhaid cadw'r taflenni i gyd yn y ffeil dosbarth.
- Os fydd plentyn yn mynd symud i'r coch, bydd angen cofnodi hyn ar SIMS (clic dde ar enw'r plentyn), cwblhau taflen 'Munud i feddwl' (atodiad), dod a'r plentyn i weld y pennaeth a chysylltu gyda'r rhieni (naill ai wrth y giât neu alwad ffôn).